Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Ar waith: Canllawiau ar gynnal cyfrinachedd

Diwygiwyd Mehefin 2018

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2018.

Cynnwys

Ynghylch y canllawiau hyn 4

Cyfrinachedd 6

1. Pwysigrwydd cynnal cyfrinachedd 6
2. Dyletswydd cyfrinachedd 7
3. Diogelu gwybodaeth 8

Datgelu 9

4. Datgelu gwybodaeth gyfrinachol 9
5. Datgelu gwybodaeth gyda chydsyniad 11
6. Datgelu gwybodaeth heb gydsyniad 11
7. Datgeliadau mae'r gyfraith yn eu gorfodi 12
8. Datgelu er budd y cyhoedd 12

Ffynonellau gwybodaeth eraill 13

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn rhan o'n swyddogaeth, rydym yn gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa.

Ynghylch y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn egluro pwysigrwydd cynnal cyfrinachedd i weithwyr fferyllol proffesiynol (fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol), a'u cyfrifoldebau yn hyn o beth. Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol wrth gymhwyso'r canllawiau hyn at eu gwaith.

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol deimlo'n hyderus bod pob aelod o'u tîm yn ymwybodol o'r canllawiau hyn a'u bod wedi eu hyfforddi'n briodol ymhob maes sy'n berthnasol i'w dyletswyddau.

Os yw gweithiwr fferyllol proffesiynol yn ansicr ynghylch yr hyn y dylai ei wneud mewn unrhyw sefyllfa benodol, dylai wastad ofyn am gyngor gan ei gyflogwr, darparwr yswiriant indemniad, undeb, corff proffesiynol neu sefydliad fferyllol arall, neu gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol** y mae'n rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at safon 7 y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, sy'n dweud:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol barchu a chynnal cyfrinachedd a phreifatrwydd pobl

Gweithredu'r safon

Mae pobl yn credu y bydd eu cyfrinachedd a'u preifatrwydd yn cael eu cadw gan weithwyr fferyllol proffesiynol, boed mewn lleoliad gofal iechyd - megis ysbyty, lleoliad gofal sylfaenol neu fferyllol - mewn person ac ar-lein. Mae cynnal cyfrinachedd yn rhan hollbwysig o'r berthynas rhwng gweithwyr fferyllol a'r bobl sy'n derbyn gofal. Efallai y bydd pobl yn gyndyn o ofyn am ofal os credant na fydd eu gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Mae egwyddorion cyfrinachedd yn dal mewn grym ar ôl i berson farw. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon, ac mae enghreifftiau isod o'r feddylfryd a'r ymddygiad yr ydym yn eu disgwyl.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- deall pwysigrwydd rheoli gwybodaeth mewn ffordd gyfrifol a diogel, ac yn cymhwyso hyn at eu gwaith bob dydd
- ystyried natur eu lleoliad gwaith ac yn gweithredu er mwyn cynnal preifatrwydd a chyfrinachedd pobl
- ymatal rhag trafod gwybodaeth a allai beri bod person yn cael ei adnabod pan allai pobl eraill nad ydyn nhw'n rhan o ofal y person glywed neu weld y trafod
- sicrhau bod pawb yn y tîm yn deall yr angen i gynnal preifatrwydd a chyfrinachedd person
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r person wrth benderfynu a ddylid rhannu ei wybodaeth, heblaw am mewn achosion pan na fyddai hynny'n briodol

Nid yw'n fwriad bod y canllawiau hyn yn ymdrin â phob agwedd ar gyfrinachedd ac nid ydynt yn cynnig cyngor cyfreithiol manwl. Maent, fodd bynnag, yn adlewyrchu'r gyfraith ym Mhrydain adeg eu cyhoeddi.

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth diogelu data ddiweddaraf, er enghraifft: deddfwriaeth diogelu data domestig y DU, **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ((UE) 2016/679) (GDPR)** a **Deddf Hawliau Dynol 1998**, a'u bod yn cydymffurfio â nhw. Mae cyfraith gyffredin y ddyletswydd gyfrinachedd hefyd yn berthnasol, yn ogystal ag unrhyw bolisïau cyfrinachedd neu bolisïau GIG sy'n berthnasol yn eu maes gwaith penodol nhw.

Mae deddfwriaeth diogelu data y DU yn ymwneud â gwybodaeth bersonol, gan gynnwys data ynghylch iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol person (y 'gwrthrych data' mewn deddfwriaeth diogelu data). Mae **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG)** yn gorfodi'r ddeddfwriaeth diogelu data ac yn cyhoeddi cyngor arni a chanllawiau iddi.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 (DHD) yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CEHD) i gyfraith y DU. Mae hwn, ynghyd â Siartr Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd, yn rhoi hawl i unigolion ddisgwyl bod eu data personol yn cael ei barchu.

Mae'r siartr hefyd yn rhoi'r hawl iddyn nhw ddisgwyl bod eu data personol[1] yn cael ei ddiogelu. Gall y materion hyn fod yn ddyrys a dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ofyn am gyngor cyfreithiol pan fo angen.

Rhaid i weithwyr fferyllol sy'n darparu gwasanaethau GIG hefyd ddilyn codau ymarfer y GIG, a'r canllawiau ar ddelio gyda gwybodaeth mewn gofal ac iechyd.

Mae gennym **ystod o ganllawiau** ar ein gwefan i helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i weithredu ein safonau. Yn benodol, wrth ddarllen y canllawiau hyn, gweler ***Ar waith: Canllawiau ar gydsyniad.***

Cyfrinachedd

1. Pwysigrwydd cynnal cyfrinachedd

1.1. Mae cadw cyfrinachedd yn rhan hollbwysig o'r berthynas rhwng gweithiwr fferyllol proffesiynol a pherson sy'n derbyn gofal. Efallai y bydd person yn gyndyn o ofyn am gyngor, neu o roi'r wybodaeth sydd ar weithiwr fferyllol ei hangen er mwyn darparu gofal addas, os yw'n credu bod posibilrwydd na fydd y gweithiwr fferyllol yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol. Pan nad yw gweithiwr fferyllol yn delio gyda gwybodaeth bersonol mewn ffordd briodol, gall niweidio ffydd y cyhoedd yn y proffesiynau fferyllol a phroffesiynau gofal iechyd eraill.

[1] Mae'r hawliau dan Erthygl 8 y DHD yn gymhleth, ac mae amodau ac eithriadau. Mae rhagor o wybodaeth ar Erthygl 8 yn: **www.equalityhumanrights.com/en/human-rights-act/article-8-respect-your-private-and-family-life**

2. Dyletswydd cyfrinachedd

2.1. Mae gan weithwyr fferyllol proffesiynol ddyletswydd gyfreithiol a phroffesiynol i gadw pob darn o wybodaeth a gânt yn ystod eu gwaith yn gyfrinachol. Mae'r ddyletswydd gyfrinachedd yn berthnasol i wybodaeth ynghylch unrhyw berson, waeth beth fo'i oed (gweler ***Ar waith: Canllawiau ar gydsyniad***), ac mae'n dal mewn grym ôl i berson farw.

2.2. Mae dyletswydd gyfrinachedd yn codi pan fo un person yn rhoi gwybodaeth i berson arall mewn amgylchiadau pan fo'n rhesymol disgwyl y bydd y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i bob darn o wybodaeth a ddaw i law gweithiwr fferyllol proffesiynol drwy ei waith.

2.3. Mae gwybodaeth gyfrinachol yn cynnwys:

- data wedi ei gadw'n electronig ac ar bapur
- manylion personol
- gwybodaeth am feddyginiaeth person (dan bresgripsiwn a heb bresgripsiwn)
- gwybodaeth arall am hanes, triniaeth neu ofal meddygol person, a allai arwain at y person yn cael ei adnabod, a
- gwybodaeth y mae pobl yn ei rhannu, nad yw'n gwbl feddygol yn ei natur, ond y byddai'r person sy'n ei rhannu yn disgwyl iddi gael ei chadw'n gyfrinachol

2.4. Nid yw gwybodaeth gyfrinachol yn cynnwys:

- Gwybodaeth ddienw - gwybodaeth na allai arwain yn rhesymol at adnabod unigolion
- Gwybodaeth wedi'i ffugenwi – gwybodaeth na allai arwain yn rhesymol at adnabod unigolion, ond sy'n galluogi gwybodaeth am wahanol bobl sy'n derbyn gofal i gael ei gwahaniaethu (er enghraifft, er mwyn adnabod sgil effeithiau cyffuriau)
- Gwybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus yn gyfreithiol

3. Diogelu gwybodaeth

3.1 Mae'n hollbwysig bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gweithredu i ddiogelu'r wybodaeth gyfrinachol a roddir iddynt wrth eu gwaith neu am eu bod yn weithwyr fferyllol proffesiynol. Rhaid iddynt:

- weithredu ymhob ffordd sy'n rhesymol i ddiogelu cyfrinachedd a diogelwch y wybodaeth a dderbyniant, neu y maen nhw'n ei chrychu, storio, anfon neu ddinistrio, yn cynnwys diogelu yn erbyn prosesu heb awdurdod neu anghyfreithlon ac yn erbyn tarfu, dinistrio neu ddifrod
- gweithredu i sicrhau pan fydd data personol yn cael ei brosesu, ei fod yn gywir a, lle bo hynny'n angenrheidiol, yn gyfoes
- gweithredu i atal unrhyw ddatgelu damweiniol
- cyrchu gwybodaeth a chofnodion cyfrinachol ddim ond yn rhan o'r gwaith o ddarparu triniaeth a gofal i berson, neu am reswm arall a ganiateir (sy'n bodloni un o'r amodau ar gyfer prosesu'n gyfreithlon ddata personol a nodir mewn deddfwriaeth)
- sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda nhw yn eu fferyllfa, ysbyty neu leoliad arall yn gwybod am eu cyfrifoldeb i gynnal cyfrinachedd
- mynegi pryderon wrth y person sy'n gyfrifol am reoli data (y rheolwr data) yn eu man gwaith, neu wrth awdurdod priodol arall, os ystyriant nad yw mesurau diogelwch data personol yno yn briodol
- parhau i ddiogelu cyfrinachedd person wedi iddo farw, heblaw am y datgeliadau sy'n angenrheidiol dan y gyfraith neu pan fo er budd y cyhoedd (gweler isod)
- storio copïau caled a dogfennau, cofnodion, cofrestri, presgripsiynau a gwybodaeth gyfrinachol arall yn ddiogel am ddim yn hwy nag sy'n angenrheidiol ar gyfer y dibenion y prosesir y data personol ar eu cyfer
- peidio â gadael gwybodaeth gyfrinachol mewn man y gall pobl sy'n derbyn gofal, y cyhoedd neu unrhyw un arall gael mynediad iddi
- peidio â thrafod gwybodaeth a allai arwain at bobl sy'n derbyn gofal yn cael eu hadnabod os bydd pobl nad ydynt ynghlwm wrth eu gofal yn gallu clywed neu weld y trafod
- peidio â datgelu gwybodaeth a allai arwain at berson yn cael ei adnabod, ar unrhyw wefannau, fforymau sgwrsio ar y we nac ar y cyfryngau cymdeithasol (gweler ein **canllawiau ar Arddangos proffesiynoldeb ar-lein**)

Datgelu

4. Datgelu gwybodaeth gyfrinachol

4.1 Gall penderfyniadau ynghylch datgelu gwybodaeth gyfrinachol fod yn ddyrys. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd angen i weithwyr fferyllol proffesiynol ddatgelu gwybodaeth yn syth bin. Bydd nifer gyfyngedig o sefyllfaoedd, fodd bynnag, pan fydd oedi yn anymarferol, pan fyddai'n achosi risg i rywun arall, er enghraifft. Dylai gweithwyr fferyllol weithredu'n briodol i sicrhau eu bod yn teimlo bod unrhyw gais am ddatgeliad yn briodol ac yn ateb gofynion cyfreithiol yn ymwneud â chyfrinachedd ac amodau ar gyfer prosesu data personol yn gyfreithlon mewn deddfwriaeth diogelu data. Pe bai'n ymarferol, efallai y byddai'n ddefnyddiol petai'r gweithiwr fferyllol yn gofyn am gyngor gan ffynonellau addas ynghylch yr hyn y dylai ei wneud (heb enwi'r person sy'n derbyn gofal).

4.2 Mae cadw cyfrinachedd yn ddyletswydd bwysig, ond gall rhai amgylchiadau beri bod datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn briodol. Dyma'r amgylchiadau hynny:

- pan fo gan weithiwr fferyllol gydsyniad y person sy'n derbyn gofal ganddo
- pan fo'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid datgelu
- pan fo datgelu er budd y cyhoedd
- rhaid gwneud hynny er budd hollbwysig person sy'n derbyn triniaeth neu ofal, er enghraifft os oes angen sylw meddygol brys ar unwaith ar glaf

4.3 Yn ystod eu gwaith, efallai y bydd gweithwyr fferyllol proffesiynol yn derbyn ceisiadau am wybodaeth gyfrinachol ynghylch pobl dan eu gofal gan amryw o bobl (perthynas, partner neu ofalwr, er enghraifft), neu sefydliadau (yr heddlu neu reoleiddiwr gofal iechyd, er enghraifft). Dylid ystyried pob cais am ddatgeliad yn unigol a dylid ystyried pob ffactor perthnasol yn drwyadl.

4.4 Os bydd person â gallu (gweler **Ar waith: Canllawiau ar gydsyniad** am ragor o wybodaeth ar gydsyniad) yn gwrthod caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu gyda gweithwyr gofal iechyd eraill sydd ynghlwm wrth ei ofal, efallai y bydd y gofal y gall ei dderbyn yn cael ei gyfyngu. Rhaid i weithwyr fferyllol barchu penderfyniad y person, ond dylent egluro wrth y person y gallai'r penderfyniad effeithio ar ei ofal neu ei driniaeth.

4.5 Rhaid i weithwyr fferyllol barchu dymuniadau person â gallu nad yw'n caniatáu rhannu gwybodaeth amdano gydag eraill, oni bai bod y gyfraith yn dweud bod yn rhaid datgelu, neu y byddai datgelu er budd y cyhoedd.

4.6 Os bydd gweithiwr fferyllol proffesiynol yn penderfynu datgelu gwybodaeth gyfrinachol am berson, dylai:

- ffugenwi'r wybodaeth neu ei gwneud yn ddienw, os nad oes angen adnabod y person sy'n derbyn gofal
- cael cydsyniad y person i rannu'r wybodaeth. Ond nid oes angen gwneud hyn os:
  - oes angen datgelu'r wybodaeth dan y gyfraith, neu
  - y gellir cyfiawnhau'r datgeliad ar sail budd y cyhoedd[2], neu
  - y byddai gwneud hynny'n anymarferol, yn cyflwyno risg niwed difrifol i'r gweithiwr fferyllol neu eraill (gan gynnwys y person sy'n derbyn gofal), neu y byddai'n rhagdybio diben y datgeliad e.e. atal trosedd
- ddatgelu dim ond y wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer y diben penodol hwnnw
- sicrhau, os byddant yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol, bod y bobl sy'n derbyn y wybodaeth yn gwybod bod y wybodaeth yn gyfrinachol a bod rhaid ei thrin felly
- cofnodi'n briodol, er mwyn dangos:
  - gan bwy y daeth y cais
  - a gafwyd cydsyniad y person sy'n derbyn gofal, neu'r rhesymau dros beidio â chael cydsyniad
  - a roddwyd, neu a wrthodwyd, cydsyniad
  - yr hyn a ddatgelwyd
  - sut y sicrhawyd y gwnaed y datgeliad yn ddiogel
  - o dan ba awdurdod neu ddarpariaeth cyfreithlon y gwnaed y cais a/neu y datgeliad
- allu cyfiawnhau'r penderfyniadau a'r gweithredoedd a wnaed
- rhyddhau'r wybodaeth yn brydlon gynted ag y maent yn fodlon pa wybodaeth y dylid ei datgelu ac wedi iddynt weithredu ymhob ffordd angenrheidiol i ddiogelu cyfrinachedd
- cadw copi o'r datgeliad a wnaed

[2] Wrth ystyried a ellir cyfiawnhau datgelu gwybodaeth heb gydsyniad, er budd y cyhoedd, dylai gweithwyr fferyllol deimlo'n hyderus bod y datgeliad yn cydymffurfio â deddfwriaeth ddiogelu data. Mae rhagor o wybodaeth ar **wefan SCG**.

5. Datgelu gwybodaeth gyda chydsyniad

5.1 Dylai gweithwyr fferyllol gael cydsyniad person i rannu ei wybodaeth oni bai y byddai hynny'n tanseilio diben y datgeliad (gweler 4.6 uchod).

5.2 Dylent sicrhau bod y person sy'n derbyn gofal ganddynt yn deall:

- pa wybodaeth fydd yn cael ei datgelu
- pam y bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu
- i bwy y bydd yn cael ei datgelu
- canlyniadau tebygol datgelu neu beidio â datgelu'r wybodaeth

5.3 Pan fo'r rheswm dros rannu gwybodaeth gyfrinachol yn un na fyddai'r person sy'n derbyn gofal yn rhesymol yn ei ddisgwyl, rhaid i weithwyr fferyllol gael cydsyniad eglur cyn datgelu.

5.4 Os bydd gweithiwr fferyllol yn ansicr a ydyw wedi derbyn cydsyniad y person i rannu ei wybodaeth, dylai gysylltu ag ef a chael ei gydsyniad.

5.5 Dylai gweithwyr fferyllol hefyd ystyried deddfwriaeth diogelu data mewn amgylchiadau o'r fath, gan fod angen dilyn y gofynion hynny hefyd. Dywed ddeddfwriaeth diogelu data, gellir rhannu gwybodaeth pan fo cydsyniad eglur (caniatâd penodol i wneud rhywbeth) yn cael ei roi. Efallai na fydd cydsyniad i rannu gwybodaeth dan y ddyletswydd gyfrinachedd yn ddilys at ddibenion deddfwriaeth diogelu data.

6. Datgelu gwybodaeth heb gydsyniad

6.1. Dylai gweithwyr proffesiynol ymdrechu'n galed i gael cydsyniad i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol. Pe bai hynny'n tanseilio diben y datgeliad, fodd bynnag, (pan fo risg i eraill, er enghraifft) neu os yw'n anymarferol, dylent ddefnyddio'r canllawiau yn yr adran hon.

6.2. Cyn datgelu gwybodaeth heb gydsyniad y person sy'n derbyn gofal, dylai gweithiwr fferyllol proffesiynol:

- deimlo'n hyderus bod rhaid datgelu'r wybodaeth dan y gyfraith, neu y gellir cyfiawnhau'r datgeliad ar sail budd y cyhoedd a'i fod hefyd yn ateb gofynion deddfwriaeth diogelu data. (Byddai hyn drwy eithriad neu amod a fyddai'n caniatáu prosesu a datgelu'r wybodaeth.)
- os yw'n ansicr ynghylch sail y cais, ofyn am eglurhad gan y person sy'n gwneud y cais
- gofyn am gael y cais mewn ysgrifen

6.3. Os bydd angen, dylai gweithwyr fferyllol ofyn am gyngor gan gorff perthnasol, eu darparwr yswiriant indemniad, er enghraifft, neu undeb, corff proffesiynol neu sefydliad fferyllol arall, neu ymgynghorydd cyfreithiol arall. Gall SCG roi cyngor, ac mae wedi cyhoeddi canllawiau, ar ddeddfwriaeth diogelu data.

7. Datgeliadau mae'r gyfraith yn eu gorfodi

7.1. Mae amgylchiadau'n bodoli lle mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddatgelu gwybodaeth sydd ganddynt o dan y gyfraith. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys pan fo person neu gorff yn defnyddio'u pŵer dan y gyfraith i ofyn am y wybodaeth, er enghraifft:

- yr heddlu, neu awdurdod gorfodi, erlyn neu reoleiddio arall
- rheoleiddiwr gofal iechyd, megis y CFfC neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
- swyddog ymchwilio i dwyll y GIG
- crwner, procuradur, barnwr neu lys perthnasol yn gorchymyn datgelu'r wybodaeth

7.2. Nid oes gan yr unigolion a sefydliadau hyn hawl awtomatig i gael mynediad i bob darn o wybodaeth gyfrinachol am berson sy'n derbyn gofal. Rhaid i weithwyr fferyllol deimlo'n hyderus bod ganddynt reswm cyfreithiol a dilys i wneud cais am y wybodaeth.

7.3. Os bydd angen, dylai gweithwyr fferyllol gael cyngor gan gorff perthnasol, eu darparwr yswiriant indemniad, er enghraifft, neu undeb, corff proffesiynol, sefydliad fferyllol arall, y SCG neu ymgynghorydd cyfreithiol annibynnol.

8. Datgelu er budd y cyhoedd

8.1. Mae'r penderfyniadau hyn yn rhai dyrys a rhaid iddynt ystyried y person sy'n derbyn gofal a budd y cyhoedd wrth gynnal neu dorri cyfrinachedd.

8.2. Gall gweithiwr fferyllol proffesiynol ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol pan fo'n ystyried bod hynny o fudd i'r cyhoedd, pe byddai angen gwybodaeth, er enghraifft, i atal:

- trosedd ddifrifol
- niwed difrifol i berson sy'n derbyn gofal neu i drydydd parti, neu
- risg ddifrifol i iechyd y cyhoedd

8.3. Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol bwyso a mesur yn ofalus y buddion a ddaw o gadw cyfrinachedd ar y naill law a'r budd i'r cyhoedd ar y llaw arall o ddatgelu'r wybodaeth.

8.4. Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ystyried y niwed a allai gael ei achosi gan beidio â datgelu'r wybodaeth yn erbyn canlyniadau posibl datgelu'r wybodaeth. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut gallai datgelu'r wybodaeth effeithio ar ofal y person a'r ffydd sydd ganddo mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol.

8.5. Wrth ystyried a ellir cyfiawnhau datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb gydsyniad, rhaid i weithwyr fferyllol deimlo'n hyderus y byddai datgelu yn cydymffurfio ag anghenion cyfreithiau diogelu data.

8.6. Os bydd angen, dylai gweithwyr fferyllol gael cyngor gan gorff perthnasol, eu

darparwr yswiriant indemniad, er enghraifft, neu undeb, corff proffesiynol, sefydliad fferyllol arall, y SCG neu ymgynghorydd cyfreithiol annibynnol.

Os oes gennych gwestiynau am, neu sylwadau ar, gynnwys y canllawiau hyn, cysylltwch â'n Tîm Polisi a Safonau:

Tîm Polisi a Safonau
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain
E14 5LQ

0203 713 8000

standards@pharmacyregulation.org

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar bynciau eraill a allai fod o ddefnydd i chi:

www.pharmacyregulation.org/standards/guidance

Ffynonellau gwybodaeth eraill

- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

  Prif swyddfa:
  Wycliffe House
  Water Lane
  Wilmslow
  SK9 5AF

  Ffôn: **0303 123 1113** neu **01625 545 745** neu **029 2067 8400** (llinell Gymraeg)

  Swyddfa'r Alban:
  45 Melville Street
  Edinburgh
  EH3 7HL

  Swyddfa Cymru:
  2il Lawr
  Tŷ Churchill
  Ffordd Churchill
  Caerdydd
  CF10 2HH

  E-bost: **casework@ico.gsi.gov.uk**

  Gwefan: **http://www.ico.org.uk**

- Canllawiau'r SCG:

  Overview of the General Data Protection Regulation (GDPR)

- Codau ymddygiad delio gyda gwybodaeth mewn iechyd a gofal, y GIG:

  Confidentiality: NHS Code of Practice (Lloegr)

  Confidentiality: NHS Code of Practice - supplementary guidance: public interest disclosures (Lloegr)

  Protecting Patient confidentiality - NHS Scotland Code of Practice

  Cyfrinachedd: Cod Ymddygiad Gofal Iechyd a Chymdeithasol yng Nghymru

Dolenni defnyddiol eraill:

- NHS Digital website (Lloegr): **https://digital.nhs.uk/home**
- Information governance for Summary Care Records (Lloegr): **https://digital.nhs.uk/summary-care-records/information-governance**
- Pharmacy Care Record (PCR) (Yr Alban): **https://nhsnss.org/services/practitioner/pharmacy/pharmacy-care-record-pcr/**
- Dewis Fferyllfa (Cymru): **www.wales.nhs.uk/nwis/page/85219**

  www.gprecord.wales.nhs.uk/home
- Y Wefan Ddiogelu Data Genedlaethol: **www.gov.uk/government/organisations/national-data-guardian**

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

@TheGPhC
TheGPhC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org